# *Rhagair*

Mae'n bleser gennym gyflwyno i chi Gynllun Cyhoeddi't Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym ni yn y Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i fod yn fwy agored beunydd wrth drafod ein busnes. Y Cynllun hwn yw un o'r camau pwysicaf y byddwn yn eu cymryd tuag at gyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

Y Cynllun Cyhoeddi yw'r mesur ymarferol cyntaf i'w gyflwyno o ganlyniad i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'n amlinellu'r wybodaeth yr ydym yn rhwymo'n hunain i'w rhoi ar gael yn hwylus i chi.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi swm helaeth o wybodaeth, a gobeithiwn y bydd y Cynllun hwn yn eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth y bydd arnoch ei hangen. Yr ydym yn esbonio yn y Cynllun, sut y gellwch gael ein cyhoeddiadau.



Yr Arglwydd Ellis-Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru



Mr Carwyn Jones AC
Y Gweinidog dros Lywodraeth Agored
Lywodraeth Cynulliad Cymru

# CYNNWYS


## *Cyflwyniad*

### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Pwerau a Chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol
Asiantaethau Gweithredol
Gwybodaeth bellach

### Y Cynllun Cyhoeddi

Pwrpas, strwythur ac adolygu
Copïau ychwanegol
Gwybodaeth sy'n esempt
Polisi codi tâl
Dod o hyd i gyhoeddiadau a'u cael
📖 Cyhoeddiadau copi caled
💻 Cyhoeddiadau electronig
Iaith Gymraeg
Hawlfraint

## *Dosbarthiadau o wybodaeth yr ydym yn ymrwymo i'w cyhoeddi*
(yn nhrefn yr wyddor yn ôl penawdau pwnc)

## *Mannau Cyswllt*

Cyhoeddiadau
Atborth a gwybodaeth bellach
- Cynllun Cyhoeddi
- Ceisiadau am Wybodaeth
- Ceisiadau Diogelu Data
- Cwynion
- Y Comisiynydd Gwybodaeth

### Atodiadau

Atodiad A Gwybodaeth sydd i'w rhyddhau am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun Cyhoeddi hwn

Atodiad B Gwybodaeth ar gael o fis Tachwedd 2002

Atodiad C Gwybodaeth ar gael o ddyddiad diweddarach na Thachwedd 2002

## *Cyflwyniad*

1. Hwn yw'r Cynllun Cyhoeddi ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a baratowyd yn unol ag Adran 19 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

### *Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?*

### *Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

2. Corff corfforaethol yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n cynnwys 60 Aelod etholedig o'r Cynulliad, ynghyd â staff o weision sifil. Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ac ymgymerodd â'i swyddogaethau ym mis Gorffennaf July 1999.

3. Cadeirir y Cynulliad Cenedlaethol gan y Llywydd, sy'n cyfateb yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r llefarydd yn Nhþ'r Cyffredin. Etholir y Llywydd gan y Cynulliad Cenedlaethol cyfan, ac y mae'n gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddiduedd. Y Llywydd, gyda chefnogaeth Swyddfa'r Llywydd sy'n gyfrifol am gyfarfodydd llawn y Cynulliad Cenedlaethol, am wasanaethau i Aelodau'r Cynulliad ac am fynediad i'r cyhoedd.

4. Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 mae'n ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ethol Prif Ysgrifennydd (a adwaenir fel y Prif Weinidog). Gall y Cynulliad Cenedlaethol ddirprwyo pwerau gweithredol, hynny yw, gwneud a chyflawni penderfyniadau, i'r Prif Weinidog neu i Bwyllgor o'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol cyfredol wedi dirprwyo'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau y gall eu dirprwyo i'r Prif Weinidog, sydd yn ei dro wedi penodi Gweinidogion y Cynulliad, y dirprwyodd iddynt y cyfrifoldeb am gyflawni'r swyddogaethau hynny. Dirprwywyd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau sy'n ymwneud yn benodol â Swyddfa'r Llywydd i Bwyllgor y Tþ yn y Cynulliad Cenedlaethol.

### *Beth yw Llywodraeth Cynulliad Cymru?*

**Llywodraeth Cynulliad Cymru**

5. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cwmpasu'r Prif Weinidog, Gweinidogion y Cynulliad sydd yn y Cabinet a'r Dirprwy Weinidogion. Mae pob Gweinidog Cabinet yn gyfrifol am faes penodol megis iechyd, addysg neu gyllid. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau gweithredol ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, ac y mae'n gwbl atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol fel corff etholedig.

6. Yn y Cynllun hwn, gwahaniaethir rhwng dogfennau a gyhoeddir yn enw Llywodraeth Cynulliad Cymru a dogfennau eraill a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## *Pa bynciau sydd o fewn cwmpas y Cynulliad Cenedlaethol?*

### Pwerau a Chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol

7. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau a chyfrifoldebau (y rhan fwyaf ohonynt wedi eu dirprwyo i'r Prif Weinidog) i wneud penderfyniadau o fewn amrediad o feysydd, sef yn benodol:

Amaethyddiaeth
Henebion ac adeiladau hanesyddol
DIwylliant
Datblygu economaidd
Addysg a hyfforddiant
Yr amgylchedd
Iechyd a gwasanaethau iechyd
Priffyrdd
Tai
Diwydiant
Llywodraeth leol
Gwasanaethau cymdeithasol
Chwaraeon ac adloniant
Twristiaeth
Cynllunio gwlad a thref
Trafnidiaeth
Iaith Gymraeg.

### Asiantaethau gweithredol

8. Ar hyn o bryd, mae gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ddwy asiantaeth weithredol, sef Cadw a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cynhwysir y rhain yn y Cynllun Cyhoeddi hwn o dan y penawdau '*Amgylchedd Hanesyddol Cymru* ' a '*Cyllid Ewropeaidd*', yn eu trefn.

## *Sut y caf ragor o wybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol?*

### Gwybodaeth bellach

9. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol o'r llyfryn gwybodaeth 'Eich arweiniad Chi i'r Cynulliad', sydd ar gael o'n Canolfan Gyhoeddiadau. Rhoddir manylion am sut i gysylltu â'r Ganolfan o dan 'Cyhoeddiadau' yn yr adran 'Mannau Cyswllt' ar ddiwedd y Cynllun hwn.

## ***Beth yw ein Cynllun Cyhoeddi?***

### *Y Cynllun Cyhoeddi*

10. Mae'n Cynllun Cyhoeddi yn datgan ein hymrwymiad i roi gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Mae'n nodi pa wybodaeth y byddwn yn ei rhoi ar gael i chi, heb fod angen i chi wneud cais penodol amdani.

## ***Beth yw diben y Cynllun, sut y mae wedi ei drefnu, ac a all newid rhywdro?***

**Pwrpas, strwythur ac adolygu**

11. *Pwrpas* y Cynllun Cyhoeddi hwn yw nodi:

i) pa wybodaeth y bwriadwn ei chyhoeddi fel mater o drefn arferol;
ii) sut y cyhoeddir y wybodaeth hon; ac
iii) a yw'r wybodaeth ar gael yn ddi-dâl, ynteu a godir tâl amdani.

12. O ran *strwythur*, ym mhob achos, rhagflaenir y dosbarthiadau o wybodaeth y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymo i'w cyhoeddi gan naill ai'r geiriau "Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi" neu "bwriadwn gyhoeddi". Mae "Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi" yn dynodi y bydd y wybodaeth ar gael o'r dyddiad pan fabwysiedir y Cynllun hwn. Mae "bwriadwn gyhoeddi" yn dynodi y bydd y wybodaeth ar gael o'r dyddiad a nodir yn y dosbarth dan sylw.

13. Rhestrir cynnwys y dosbarthiadau yn nhrefn yr wyddor yn ôl y penawdau pwnc, a dilynir pob un gan ddisgrifiad cryno o'r wybodaeth. Rhoddir rhestrau sy'n cynnwys crynodebau o'r holl ddosbarthiadau, yn nhrefn yr wyddor, yn Atodiad B (gwybodaeth ar gael o Dachwedd 2002) ac Atodiad C (gwybodaeth ar gael o ddyddiad diweddarach na Thachwedd 2002).

14. Byddwn yn cadw'r Cynllun Cyhoeddi dan *adolygiad* yn gyson. Un o'r ffactorau allweddol a gymerir i ystyriaeth wrth wneud hynny fydd y wybodaeth a ddatgelir gan y Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i geisiadau yn unol â'i God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth (gweler o dan '*Ceisiadau am Wybodaeth*').

## ***Sut y gellwch gael rhagor o gopïau o'r Cynllun hwn?***

**Copïau ychwanegol**

15. Mae copïau dwyieithog o'r Cynllun ar gael yn ddi-dâl o'r Ganolfan Gyhoeddiadau. Rhoddir manylion cyswllt y Ganolfan o dan 'Cyhoeddiadau' yn yr adran 'Mannau Cyswllt' ar ddiwedd y Cynllun hwn.

16. Mae copïau print bras o'r Cynllun hefyd ar gael o'r Ganolfan Gyhoeddiadau. Darperir y Cynllun mewn fformat Braille neu dâp clywedol os gwneir cais.

17. Cewch weld copi caled o'r Cynllun yn eich llyfrgell leol neu mewn Canolfannau Cynghori.

18. I bawb sydd â mynediad i'r rhyngrwyd, mae'r Cynllun hwn ar gael yn uniongyrchol o:
www.cyhoeddiadau.wales.gov.uk.

19. Ar gyfer y rhai nad oes mynediad ganddynt at y rhyngrwyd, gellir archwilio'r Cynllun yn electronig yn swyddfeydd rhanbarthol y Cynulliad Cenedlaethol; a rhagwelir y gall pob llyfrgell gyhoeddus ddarparu mynediad i aelodau'r cyhoedd at y rhyngrwyd yn ddi-dâl erbyn diwedd 2002. Mae manylion am y lleoliadau hyn i'w cael o'n Canolfan Gyhoeddiadau.

***Pa wybodaeth na fydd ar gael i chi?***

**Gwybodaeth sy'n esempt**

20. Mae'r ymrwymiad i gyhoeddi gwybodaeth yn eithrio unrhyw wybodaeth y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn briodol wrthod ei datgelu yn unol â'r esemptiadau a nodir yn ei God Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Pan fo dosbarthiadau unigol yn agored i'w heithrio, y prif resymau am hynny yw amddiffyn buddiannau masnachol a gwybodaeth bersonol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

***A fydd raid talu am wybodaeth rywdro?***

**Polisi codi tâl**

21. Oni ddywedir yn wahanol, mae'r cyhoeddiadau a gyhoeddir yn uniongyrchol gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gael yn ddi-dâl.

22. Mae ***[£]*** yn ymddangos gyferbyn â dosbarthiadau o wybodaeth sy'n cynnwys unrhyw gyhoeddiadau copi-caled y gellir codi tâl amdanynt. Gellir cael manylion am y cyhoeddiadau y codir tâl amdanynt o'r Ganolfan Gyhoeddiadau. I rai sydd â mynediad at y rhyngrwyd,

dangosir y tâl a godir am gyhoeddiadau penodol yn eglur gyferbyn â'r cyhoeddiad perthnasol yn yr adrannau Cyhoeddiadau Ystadegol, Cadw a'r Catalog Cyhoeddiadau ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

## *Sut y gellwch ddod o hyd i'r wybodaeth a geisiwch, a'i chael ?*

**Dod o hyd i gyhoeddiadau a'u cael**

23. Mae'r wybodaeth yn y dosbarthiadau yr ydym yn ymrwymo i'w cyhoeddi yn unol â'r Cynllun hwn ar gael mewn nifer o fformatau. Mae pob dogfen *ar gael* fel copi caled, a chyhoeddir y mwyafrif yn electronig (fel arfer yn y fformatau PDF a/neu HTML). Yn yr achosion hynny pan *gyhoeddir* y wybodaeth mewn fformat electronig yn unig, darperir allbrint o'r ddogfen ar gais i rai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd. Pan nad yw'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi yn electronig, nodir hynny yn eglur o dan y dosbarth perthnasol. Yn achlysurol, bydd y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth mewn fformatau eraill, e.e tapiau fideo a disgiau CD-ROM.

## *A oes arnoch eisiau copi ar bapur?*

**Cyhoeddiadau copi caled**

24. Dylid cyfeirio ceisiadau am gopïau o gyhoeddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru i'n Canolfan Gyhoeddiadau fel a nodir isod. Os na wyddoch y manylion llawn am yr hyn sydd arnoch ei angen, dylech gysylltu â'r Ganolfan am gymorth. Gall fod copïau o'r cyhoeddiadau mewn llyfrgelloedd lleol hefyd.

25. Y manylion ar gyfer cysylltu â'r Ganolfan Gyhoeddiadau yw'r canlynol:

Y Ganolfan Gyhoeddiadau,
Glanfa'r Cynulliad,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Croesewir ymwelwyr personol.

Yr amseroedd agor yw 9.30 a.m. - 4.30 p.m. Llun - Iau
10.00 a.m. - 4.30 p.m. Gwener
Mae'r Ganolfan Gyhoeddiadau ar gau ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau cyhoeddus.

029 2089 8688 neu 029 2089 8600
029 2089 8947

assembly-publications@wales.gsi.gov.uk

26. Ar gyfer rhai â mynediad at y rhyngrwyd, gellir dod o hyd i gyhoeddiadau copi-caled a'u cael trwy'r Catalog Cyhoeddiadau ar:
www.cyhoeddiadau.wales.gov.uk

***A oes arnoch eisiau archwilio dogfennau ar-lein?***

**Cyhoeddiadau electronig**

27. Gellir cael mynediad at ddogfennau electronig yn uniongyrchol o wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Y cyfeiriad yw:
www.cymru.gov.uk

28. Er mwyn darllen dogfennau PDF bydd arnoch angen Adobe Acrobat Reader; mae'r meddalwedd hwn ar gael yn ddi-dâl o wefan Adobe:
http://www.adobe.com/products/acrobat/readstep.html

29. Darperir mynediad at y rhyngrwyd yn ddi-dâl yn swyddfeydd rhanbarthol y Cynulliad Cenedlaethol, a rhagwelir y bydd pob llyfrgell leol yn cynnig mynediad rhyngrwyd di-dâl erbyn diwedd 2002. Mae rhestr o'r lleoliadau hyn a chanolfannau dysgu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu eraill yng Nghymru ar gael o'r Ganolfan Gyhoeddiadau.

***A yw'r cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg?***

**Iaith Gymraeg**

30. Mae mwyafrif mawr y dogfennau a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhai dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r dogfennau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith Gymraeg cyhoeddedig (gweler o dan '*Iaith Gymraeg*' yn y rhestr o'r dosbarthiadau yn nhrefn yr wyddor).

***A ellwch gopïo ein cyhoeddiadau?***

**Hawlfraint**

31. Mae pob un o gyhoeddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Hawlfraint y Goron. Yn gyffredinol, gellir atgynhyrchu deunydd i ddibenion personol neu fewnol heb ganiatâd ffurfiol na thâl. Ni chaniateir atgynhyrchu ar gyfer gwerthu nac i ddibenion masnachol eraill. Os ydych yn dymuno holi ynghylch math arall o ddefnydd, neu mewn amheuaeth, gellir cael gwybodaeth bellach a nodiadau cyfarwyddyd ar gyhoeddi a hawlfraint gan:

HMSO Licensing Division,
St.Clements House,
2-16 Colegate,
Norwich
NR3 1BQ

01603 621000
http://www.hmso.gov.uk/copy.htm
http://www.hmso.gov.uk/guides.htm

## *Dosbarthiadau o wybodaeth yr ydym yn ymrwymo i'w cyhoeddi*

(yn nhrefn yr wyddor yn ôl penawdau pwnc)

### *Pa wybodaeth yr ydym yn addo caniatáu i chi ei chael?*

***Adroddiadau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Adroddiadau canlynol:

Adroddiad Blynyddol y Gyllideb
Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Cymru'n Ennill - strategaeth ddatblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru
Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau
Adroddiad Blynyddol y Prif Weinidog
Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llywodraeth Leol
Adroddiad Blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy
Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol
Adroddiad Blynyddol Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru
Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth
Adroddiad Blynyddol ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru
Adroddiad Blynyddol ar y Trefniadau Cyfle Cyfartal
Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'r Cynulliad
Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar arwyddocâd Deddfwriaeth Ewropeaidd
Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Llywydd
Adroddiadau a osodir gerbron gan y Pwyllgor Archwilio
Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â materion a gyfeirir iddo gan y Llywydd
Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth
Adroddiadau a gyflwynir gan Bwyllgorau Pwnc

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi adroddiadau ad hoc y tybir eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Yr ydym yn cyhoeddi adroddiadau ar amrediad eang o bynciau. Paratoir rhai adroddiadau yn rheolaidd ac eraill yn achlysurol yn ôl y galw.

***Aelodau'r Cynulliad (AC)***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi bywgraffiadau o Aelodau'r Cynulliad ynghyd â'u manylion cyswllt cyhoeddus.

Mae'r manylion sydd ar gael ar ein gwefan am bob un o'r 60 o Aelodau etholedig y Cynulliad yn dangos i ba blaid wleidyddol y mae pob un yn perthyn, eu hetholaethau, eu cyfrifoldebau arbennig o fewn y Cynulliad Cenedlaethol, cyfeiriadau cyswllt a ffotograffau.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi y Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Mae Aelodau'r Cynulliad yn cytuno i arddel casgliad o safonau mewn perthynas ag anhunanoldeb, unplygrwydd, gwrthrychedd, atebolrwydd, diffuantrwydd, gonestrwydd ac arweiniad. Mae'r safonau hyn yn cynnal ac yn cryfhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn Aelodau'r Cynulliad fel cynrychiolwyr etholedig eu cymunedau, ac yn unplygrwydd y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi cofrestr o fuddiannau'r Aelodau, gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr cwmnïau, gwaith taledig a rhoddion a lletygarwch uwchlaw gwerth a bennir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru unrhyw fuddiannau perthnasol o fewn wyth wythnos ar ôl gwneud eu llw neu ddwys-haeriad, a chofrestru unrhyw newid yn eu buddiannau o fewn pedair wythnos. Mae'r Gofrestr, a gedwir yn y Swyddfa Gyflwyno ac a ddiwedderir yn rheolaidd, yn agored i'w archwilio gan y cyhoedd yn ystod oriau swyddfa. Gellir cael copïau o gofnodion unigol ar gais, ynghyd ag adroddiad manwl sy'n cwmpasu pob un o'r cofnodion. Yr ydym hefyd yn cyhoeddi manylion am y categorïau o amgylchiadau pan yw'n ofynnol datgan buddiant.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth ym mhob blwyddyn ariannol am y symiau cyfanswm a delir gan y Cynulliad Cenedlaethol i'w Aelodau cyfredol ac i'w gyn-Aelodau, ar gyfer Cyflogau, Lwfansau a Phensiynau.

Rhoddir manylion am y symiau blynyddol a delir am gyflogau, lwfansau a chyfraniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yng Nghyfrifon Adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol. Cynhwysir y manylion am y pensiynau a delir i gyn-Aelodau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddir gwybodaeth yn flynyddol hefyd yn ateb i Gwestiwn Cynulliad ysgrifenedig i Bwyllgor y Tŷ.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â symiau'r cyflogau a'r lwfansau sydd i'w talu i Aelodau'r Cynulliad.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd sy'n daladwy i unigolion a beidiodd â bod yn Aelodau

o'r Cynulliad.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'i Rheolau Sefydlog, rhaid i unrhyw benderfyniad o'r fath gael ei gymeradwyo gan fwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf o'r Aelodau o'r Cynulliad sy'n pleidleisio ar y penderfyniad. Gellir gwneud gwahanol drefniadau mewn achosion gwahanol. Er enghraifft, gellir talu lefelau cyflog gwahanol i Aelodau'r Cynulliad sy'n dal swyddi penodol (e.e. y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, y Prif Weinidog a Gweinidogion y Cynulliad).

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi cynllun seddau Siambr y Cynulliad Cenedlaethol.

Cynhelir cyfarfodydd llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Siambr ddwywaith yr wythnos. Trefnir y seddau ar ffurf cilgant sy'n wynebu'r Llywydd, gydag Aelodau'r Cabinet yn y rhes flaen, a gweddill yr Aelodau yn eistedd gyda'i gilydd yn eu grwpiau gwleidyddol. Dynodir y sedd a ddyrannwyd i bob Aelod gan rif ar y cynllun seddau.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr.

Casgliad o reolau yw'r Protocol, sy'n llywodraethu ymddygiad Aelodau'r Cynulliad yn Siambr y Cynulliad Cenedlaethol.

***Agendâu, Cofnodion Cyfarfodydd a Phapurau***

Ar gyfer agendâu a chofnodion cyfarfodydd llawn y Cynulliad Cenedlaethol, gweler o dan '*Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad Cenedlaethol*'.

Ar gyfer agendâu, cofnodion a phapurau cyfarfodydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, gweler o dan '*Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol*'.

Ar gyfer agendâu, cofnodion a phapurau cyfarfodydd y Cabinet ac is-bwyllgorau'r Cabinet, gweler o dan '*Cabinet*'.

Ar gyfer agendâu, cofnodion a phapurau cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredu (Bwrdd Rheoli'r Cynulliad Cenedlaethol), gweler o dan '*Bwrdd Gweithredu*'.

***Amgylchedd Hanesyddol Cymru***

Cadw: Asiantaeth Weithredol Henebion Cymru sy'n gyfrifol am gadw, cyflwyno a hyrwyddo'r dreftadaeth adeiledig Gymreig ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r swyddogaeth hon yn cynnwys sicrhau y diogelir henebion ac adeiladau hanesyddol, dyrannu cymorth grant i'w hatgyweirio, a rheoli'r 129 o henebion yng Nghymru sydd o dan ofal uniongyrchol y wladwriaeth.

Yr ydym yn ymrwymo, trwy gyfrwng Cadw (un o'n Hasiantaethau Gweithredol) i gyhoeddi deunyddiau arbenigol a masnachol sy'n darparu cyngor a gwybodaeth mewn perthynas ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru. ***[£]***

Mae amrediad eang cyhoeddiadau Cadw yn darparu ar gyfer pob lefel o ddiddordeb. Ni chyhoeddir rhan o'r wybodaeth yn electronig yn y dosbarth hwn.

Mae llawer o'r cyhoeddiadau a gynhyrchir gan Cadw ar ran y Cynulliad Cenedlaethol yn rhai a gyhoeddir ar sail fasnachol. Defnyddir rhan o'r derbyniadau gwerthiant ar gyfer y costau cyhoeddi, a rhan ar gyfer diogelu, cadw a chyflwyno treftadaeth bensaernïol ac archeolegol Cymru.

Mae'r cyhoeddiadau y codir tâl amdanynt ar gael gan:

Adran Werthiant Cadw
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

☎ 029 20826175 (dyddiau gwaith rhwng 10am a 3pm)
029 20826375
cadw.sales@wales.gsi.gov.uk

Mae’r cyhoeddiadau eraill i gyd ar gael gan:

Gwasanaethau Canolog Cadw,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

☎ 029 20500200
029 20826375
cadw@wales.gsi.gov.uk

***Ardaloedd a Gynorthwyir***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi mapiau sy'n dangos yr Ardaloedd a Gynorthwyir yng Nghymru.

Dynodir yr Ardaloedd a Gynorthwyir trwy Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach a Diwydiant, yn unol ag Adran 1 Deddf Datblygu Diwydiannol 1982; ac y maent yn diffinio'r ardaloedd lle y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddarparu cymhorthion rhanbarthol y wladwriaeth i ddiwydiant yn unol â'r Ddeddf honno.

***Bwrdd Gweithredu***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi manylion am gylch gwaith ac aelodaeth y Bwrdd Gweithredu.

Y Bwrdd Gweithredu yw tîm uwch reolwyr y Cynulliad Cenedlaethol, a gadeirir gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae'n cynnal cyfarfodydd byr yn wythnosol yn absenoldeb Clerc y Cynulliad, i ystyried materion gweithredol ynglÞn â chynorthwyo busnes y Cabinet; a chyfarfod misol llawn gyda'r Clerc yn bresennol, i ystyried materion rheoli strategol sy'n ymwneud â phob rhan o'r Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi agendâu, cofnodion a phapurau, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, mewn perthynas â chyfarfodydd rheoli misol y Bwrdd Gweithredu.

Mae cyfarfodydd rheoli misol y Bwrdd Gweithredu yn ymdrin â materion megis staff y Cynulliad Cenedlaethol a chyflogaeth, systemau ac arferion gweithredol, adnoddau rheoli a hyrwyddo gwelliant parhaus. O ran ddefnyddio'r esemptiadau a ganiateir yn y Cod Ymarfer, ni fydd y Bwrdd, er enghraifft, fel arfer yn cyhoeddi papurau ar faterion sy'n ymwneud ag aelodau unigol o'r staff, materion sy'n destun negodi neu ymgynghori â'r staff, materion rheoli perfformiad mewnol, na'r modd y dyrennir adnoddau rheoli yn fewnol. Cyhoeddir yr agendâu, y cofnodion a'r papurau chwe wythnos ar ôl y cyfarfod.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Bwrdd Rheoli***

Adwaenir ein bwrdd rheoli fel y Bwrdd Gweithredu. Am fanylion, gweler o dan '*Y Bwrdd Gweithredu*'.

***Cabinet***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi rhestr o Weinidogion y Cabinet a'u cyfrifoldebau.

Y Cabinet yw'r prif gorff ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. Aelodau'r Cynulliad sy'n ethol y Prif Weinidog, ac yntau neu hithau yn ei dro yn penodi'r Gweinidogion sy'n ffurfio'r Cabinet. Gall Gweinidogion unigol fod yn gyfrifol ac yn atebol am feysydd polisi penodol megis iechyd neu amaethyddiaeth. Cyhoeddir manylion cyswllt ar gyfer Gweinidogion y Cabinet, yn rhan o'r adran 'Bywgraffiadau'r Aelodau' ar safle rhyngrwyd y Cynulliad Cenedlaethol.

Gweler hefyd o dan '*Aelodau'r Cynulliad*'.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi agendâu, cofnodion a phapurau, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar fynediad i Wybodaeth, mewn perthynas â'r canlynol:
(i) cyfarfodydd y Cabinet; a
(ii) chyfarfodydd is-bwyllgorau'r Cabinet.

Mae agendâu cyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd is-bwyllgorau'r Cabinet ar gael bum wythnos ar ôl dyddiad y cyfarfodydd perthynol. Mae'r cofnodion a'r papurau ar gael chwe wythnos ar ôl dyddiad y cyfarfod.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi pob un o ddatganiadau Gweinidogiony Cabinet i'r Cynulliad Cenedlaethol (e.e. y datganiad o'r gwariant arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf).

Mae pob datganiad llafar a wneir gan Weinidogion i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gynwysedig yng Nghofnod y Trafodion. Paratoir rhestr o'r holl ddatganiadau llafar a wnaed gan y Gweinidogion, yn nhrefn eu dyddiadau o'r presennol yn ôl i ddechrau'r flwyddyn - gan nodi enw'r Gweinidog a phwnc y datganiad.

Ar gyfer y ffeithiau a dadansoddiad o'r ffeithiau sydd y tu ôl i brif gynigion a phenderfyniadau polisi'r Gweinidogion, gweler o dan '*Penderfyniadau Gweinidogol*'.

***Cadw***

Gweler o dan '*Amgylchedd Hanesyddol Cymru*'.

***Caffael***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ac yn benodol pan fyddai cyhoeddi gwybodaeth yn niweidio buddiannau masnachol trydydd parti, mewn perthynas â'r canlynol:

## Ein polisïau ar gaffael a chyflenwyr

Mae'r polisïau hyn yn darparu manylion am y fframwaith prynu sy'n chwarae rhan allweddol mewn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau yn effeithlon ac yn gost-effeithiol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nod y wybodaeth yw symleiddio'r broses o wneud busnes gyda'r Cynulliad Cenedlaethol yn ogystal â chyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr am weithdrefnau prynu. Gall cyflenwyr sydd â diddordeb mewn ennill busnes gan y Cynulliad Cenedlaethol gofnodi eu diddordeb trwy gyfrwng y wefan berthnasol (http://www.gafaelargaffael.wales.gov.uk/index.htm). Mae'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd wedi cyhoeddi llyfryn gyda'r teitl "Cod Ymarfer Gwirfoddol ar gyfer Cyflenwyr".

## Contractau a ddyfernir gan ein Uned Gaffael Gaffael sydd â'u gwerth dros £10,000.

Mae rhestrau ar gael o'r contractau a ddyfarnwyd sydd dros £10,000. Maent yn darparu manylion am y math o gontract, am ba gyfnod y bydd yn parhau, i bwy y'i dyfarnwyd ac ar ba ddyddiad, ynghyd ag esboniad o'r gwaith sy'n oblygedig.

***Canllawiau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r canllawiau a baratoir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddibenion gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar amrediad eang o bynciau.

Erbyn diwedd 2003 bwriadwn gyhoeddi Cyfeiriadur Canllawiau Mewnol ar Faterion sy'n Effeithio ar y Cyhoedd.

Yn y Cyfeiriadur, nodir y canllawiau a baratowyd ar gyfer swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol ar amrediad eang o faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y cyhoedd yn gyffredinol.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Erbyn diwedd 2003, bwriadwn gyhoeddi ein Porth i Bolisïau.

Mae'r Porth i Bolisïau yn darparu canllawiau a chyngor mewnol i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bob agwedd ar lunio polisïau. Mae'n cynnwys gwybodaeth hawdd-i'w-dilyn am bopeth sy'n oblygedig yn y gwaith o ddatblygu polisi - o gael y syniad gwreiddiol hyd at gyflwyno'r polisi gorffenedig.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Canllawiau Mewnol***

Gweler o dan'*Canllawiau*' a '*Recriwtio*'.

***Ceisiadau am Wybodaeth***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi ein gweithdrefnau ar gyfer trin ceisiadau am wybodaethh yn unol â Chod Ymarfer y cynullliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, a manylion am y cymorth a'r cyngor y gallwn eu rhoi ar lunio ceisiadau.

Yn unol â darpariaethau Cod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, gall aelod o'r cyhoedd wneud cais am wybodaeth a ddelir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gedwir mewn unrhyw ffurf. Nodir y gweithdrefnau ar gyfer ymateb i geisiadau yn y Cod Ymarfer.

Os hoffech gael cyngor neu gymorth i baratoi cais o'r fath, trowch os gwelwch yn dda at y manylion a roddir yn yr adran 'Mannau Cyswllt' yn y Cynllun Cyhoeddi hwn.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi rhestr o'r wybodaeth a ddatgelir gennym o ganlyniad i geisiadau a wneir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Bydd y rhestr yn rhoi disgrifiad o'r wybodaeth a ddatgelir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ateb i geisiadau am wybodaeth na chyhoeddir ar hyn o bryd.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Codau Ymarfer***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Codau Ymarfer canlynol:

i) Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth (gweler hefyd o dan '*Ceisiadau am Wybodaeth*').

ii) Cod Ymarfer ar Gwynion (gweler hefyd o dan '*Cwynion ac Apeliadau*').

iii) Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus (gweler hefyd o dan '*Penodiadau Cyhoeddus*').

iv) Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol (gweler hefyd o dan '*Partneriaethau*'.)

Yr ydym yn paratoi Codau Ymarfer sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau a ddefnyddiwn i ymdrin â gwahanol faterion.

Ar gyfer y Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, gweler o dan '*Aelodau'r Cynulliad*'.

***Cofnod y Trafodion***

Gweler o dan '*Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad Cenedlaethol*'.

***Cofrestr Asedau Gwybodaeth***

Erbyn diwedd 2003 bwriadwn gyhoeddi Cofrestr Asedau Gwybodaeth.

Rhestr fydd y Gofrestr Asedau Gwybodaeth o'r wybodaeth a ddelir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nodir yn eglur yn y Gofrestr y criteria a ddefnyddir i benderfynu pa eitemau i'w rhestru; a bydd y criteria'n adlewyrchu'r arferion gorau cyfredol o fewn y gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y mathau o wybodaeth a restrir yn cynnwys cronfeydd data, setiau o ffeiliau, ffeiliau electronig, a chasgliadau o ddata ystadegol. Er y bydd y Gofrestr yn canolbwyntio ar adnoddau gwybodaeth nad ydynt eto wedi eu cyhoeddi'n ffurfiol, cynhwysir rhai eitemau cyhoeddedig yn ogystal.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau***

Gweler o dan '*Aelodau'r Cynulliad*'.

***Concordatiau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Concordatiau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Adrannau Llywodraeth y DU.

Cytundebau anffurfiol a hyblyg yw'r Concordatiau, sy'n llywodraethu'r berthynas weinyddol fanwl rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau unigol yn Llywodraeth y DU, yn enwedig ar faterion o ddiddordeb neu fudd cyffredin.

Gweler hefyd o dan '*Memorandwm Dealltwriaeth*' a '*Pwerau a Chyfrifoldebau*'.

***Cwestiynau Llafar***

Gweler o dan '*Cwestiynau'r Cynulliad*'.

***Cwestiynau Ysgrifenedig***

Gweler o dan '*Cwestiynau'r Cynulliad*'.

***Cwestiynau'r Cynulliad (CC)***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi cwestiynau llafar ac ysgrifenedig a osodir gan Aelodau'r Cynulliad ac a dderbynnir gan y Llywydd.

Gall yr Aelodau osod cwestiynau (hynny yw, eu darparu yn ffurfiol

i Swyddfa Gyflwyno'r Cynulliad Cenedlaethol) i'w hateb ar lafar neu'n ysgrifenedig gan unrhyw Weinidog y Cabinet, ar faterion sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Gweinidog, o leiaf bum diwrnod cyn ei bod yn bryd eu hateb. Cyhoeddir rhestrau o'r cwestiynau.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r atebion i gwestiynau llafar.

Cyhoeddir yr atebion i'r cwestiynau llafar a gyrhaeddir yn sesiynau llawn y Cynulliad Cenedlaethol, yn rhan o 'Gofnod y Trafodion' (gweler o dan '*Cyfarfodydd Llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol*'). Cyhoeddir atebion i'r cwestiynau llafar na chyrhaeddir mewn sesiwn lawn, fel ffeil o 'atebion' atodol. Cyhoeddir y ffeil hon fel arfer y diwrnod ar ôl dyddiad y cyfarfod llawn y mae'r cwestiwn yn berthynol iddo. Cyfieithir cwestiynau ac atebion Saesneg i'r Gymraeg, ac i'r gwrthwyneb. Darperir y cyfieithiad o fewn saith diwrnod gwaith.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r atebion i gwestiynau ysgrifenedig.

Cyhoeddir atebion i gwestiynau ysgrifenedig mewn bwletin wythnosol ar ddyddiau Llun, yn yr iaith y gofynnwyd y cwestiwn ynddi. Cyfieithir cwestiynau ac atebion Saesneg i'r Gymraeg, ac i'r gwrthwyneb. Darperir y cyfieithiad o fewn deg diwrnod gwaith.

***Cwynion***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi ein gweithdrefnau ar gyfer gwneud a thrin cwynion.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno ar God Ymarfer ar Gwynion er mwyn sicrhau bod pob cwyn am ei weithredoedd neu ei fethiant i weithredu yn cael ei chydnabod ac y cynhelir ymchwiliad priodol. Mae taflen ar gael sy'n disgrifio'r system gwynion fewnol, ynghyd â gwybodaeth am swyddogaeth Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd dros Gymru. Mae crynodeb blynyddol o'r cwynion a fu'n destun ymchwiliad ar gael hefyd, yn amodol ar y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno ar weithdrefn i ymdrin â chwynion ynghylch gweithredoedd Aelodau unigol o'r Cynulliad. Yng ngoleuni adroddiad gan yr Ymgynghorydd Annibynnol ar Safonau, gall y Llywydd gyfeirio cwyn i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Gosodir adroddiadau'r Pwyllgor gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a chyhoeddir hwy. Mae'r Pwyllgor wedi paratoi taflen sy'n rhoi cyfarwyddyd ar "Sut i Gwyno".

Gweler hefyd o dan '*Codau Ymarfer*'.

***Cyd-adolygiadau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r adroddiadau ar y Cyd-adolygiadau gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Archwilio ***[£]***.

Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Archwilio gyda'i gilydd yn cynnal arolygiadau o'r Awdurdodau Gwasanaethau Cymdeithasol trwy gyd-adolygu Cyhoeddir adroddiadau o'r arolygiadau hyn gan y Comisiwn Archwilio ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, ac y maent ar gael am y tâl priodol yn uniongyrchol o'r Comisiwn Archwilio.

***Cydraddoldeb Hiliol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi canlyniadau'r asesiadau, yr ymgyngoriadau a'r ymarferiadau monitro a gynhelir yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Yn unol â Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 (fel y'i newidiwyd) a chanllawiau statudol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, mae'n ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

***Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad Cenedlaethol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi agendâu a chofnodion cyfarfodydd Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyfarfod llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol yw cyfarfod ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad, a gynhelir yn Siambr y Cynulliad Cenedlaethol. Cynhelir y cyfarfodydd llawn ddwywaith yr wythnos.

Bob wythnos, pan yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn eistedd, mae'n cyhoeddi 'Rhagolwg' sy'n rhoi crynodeb o'r busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfodydd llawn am y tair wythnos ganlynol. Cyhoeddir agenda fanwl o'r busnes ar gyfer pob sesiwn cyn y cyfarfod - er hwyrach na fydd modd cyhoeddi newidiadau hwyr o flaen llaw, er enghraifft er mwyn trafod busnes brys.

Y cofnod gair-am-air o bob sesiwn lawn, a elwir yn Gofnod y Trafodion yw'r hyn sy'n cyfateb yn y Cynulliad Cenedlaethol i Hansard, a chyhoeddir ef 24 awr ar ôl diwedd y sesiwn. Mae'r cofnod hwn yn cyflwyno'r trafodion yn yr iaith y'u mynegwyd ynddi, ynghyd â chyfieithiad Saesneg o unrhyw gyfraniadau a wneir yn Gymraeg. Cyhoeddir fersiwn dwyieithog llawn o'r Cofnod Trafodion

o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod. Disodlir y fersiwn hwn o fewn chwe mis gan fersiwn archif, sy'n cynnwys unrhyw fân newidiadau golygyddol sy'n angenrheidiol.

***Cyflogaeth***

Gweler o dan '*Recriwtio*'.

***Cyfrifon Adnoddau***

Gweler o dan '*Cyllid*'.

***Cyhoeddiadau Achlysurol***

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn paratoi llawer o gyhoeddiadau achlysurol eu natur. Gall y rhain fod ar ffurf llyfrynnau, pamffledi, taflenni, posteri, hysbysiadau cyhoeddus etc. Nod cyhoeddiadau o'r fath yw hyrwyddo neu esbonio polisïau, cynlluniau neu ddigwyddiadau penodol. Ni chyhoeddir pob un o'r cyhoeddiadau ar ffurf electronig.

***Cylchlythyrau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi cylchlythyrau yn y cyfresi 'Cylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru' a 'Cylchlythyrau Iechyd Cymru'.

Pwrpasau'r cylchlythyrau, yn fras, yw'r canlynol: cyfleu safbwyntiau'r Gweinidogion ynglŷn â pholisïau neu flaenoriaethau; cyfleu cydsyniadau mewn perthynas â phwerau statudol; hysbysebu ac esbonio deddfwriaeth a rheoliadau newydd; esbonio gweithdrefnau a systemau (e.e. ar gyfer ceisiadau am grantiau a ffurflenni gwybodaeth ystadegol); cyfleu gwybodaeth a chynghorion eraill, sydd yn aml yn dechnegol neu weithredol eu natur.

***Cyllid***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi ein Cyfrifon Adnoddau blynyddol.

Mae'r Cyfrifon Adnoddau blynyddol yn rhoi manylion am asedau a rhwymedigaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

O fis Medi 2003 ymlaen, bwriadwn gyhoeddi Cyfeirlyfr Cyllid (Finance Manual) y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Cyfeirlyfr Cyllid (Finance Manual) yn darparu canllawiau arferion gorau ynglŷn â rheolau a gweithdrefnau, er mwyn sicrhau yr ymdrinnir yn briodol â'r arian cyhoeddus y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol amdano, ac y cyflwynir adroddiadau ariannol priodol.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

O fis Medi 2003 ymlaen, bwriadwn gyhoeddi Llawlyfr Cyllid (Finance Handbook) y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Llawlyfr Cyllid (Finance Handbook) yn cynnwys cyngor a chanllawiau i Aelodau a swyddogion y Cynulliad ynghylch y systemau o reolaethau ariannol a ddefnyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol i sicrhau uniondeb wrth reoli arian cyhoeddus a chynnal busnes cyhoeddus.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Gweler hefyd o dan '*Cyllidebau*', '*Grantiau, Benthyciadau a Darparu Gwarantau*' a '*Caffael*'.

***Cyllid Ewropeaidd***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi, trwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), sef un o'n Asiantaethau Gweithredol, amrediad o gyhoeddiadau sy'n cynnwys cyngor a gwybodaeth, ynghyd â deunydd cyhoeddusrwydd mewn perthynas â'r Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop, yr ydym ni'n gyfrifol am eu rheoli yng Nghymru.

Asiantaeth Weithredol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yw WEFO. Mae'n rheoli pob agwedd ar Raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop a Mentrau'r Gymuned yng Nghymru, yn ogystal â rhai meysydd o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Gronfa Adfywio Leol. Ei phrif amcanion yw sicrhau bod Cymru'n cael y budd mwyaf o'r Rhaglenni Ewropeaidd a chronfeydd adfywio eraill, hyrwyddo twf economaidd cynaliadwy, gwella ffyniant pob rhan o Gymru, lleihau gwahaniaethau o fewn Cymru a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb,

anweithgaredd a dieithrwch cymdeithasol. Mae cyhoeddiadau WEFO yn esbonio beth yw'r cronfeydd strwythurol, sut y ceir mynediad atynt, ac yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o brosiectau sydd wedi eu cyllido. Mae mapiau ar gael hefyd, sy'n dangos pob un o'r ardaloedd Amcan 1, 2 a 3. Gellir cael y cyhoeddiadau a'r mapiau, ynghyd â gwybodaeth bellach, oddi wrth:

Yr Uned Ymholiadau,
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Parc Busnes Cwm Cynon,
Aberpennar,
CF45 4ER

01443 471100
01443 471120
enquiries-wefo@wales.gsi.gov.uk
www.wefo.wales.gov.uk

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi agendâu, cofnodion a phapurau y Pwyllgorau Monitro Rhaglenni Ewropeaidd a reolir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Sefydlwyd Pwyllgorau Monitro Rhaglen ar gyfer pob un o'r Rhaglenni Ewropeaidd a reolir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Y rhaglenni hyn yw Amcan 1 ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Amcan 2 ac Amcan 3 ar gyfer Dwyrain Cymru; a Mentrau'r Gymuned Ewropeaidd, sef: LEADER+, URBAN II, INTERREG IIIA.

Mae yna hefyd Raglenni Ewropeaidd eraill, na reolir gan y Cynulliad Cenedlaethol, megis INTERREG III B a C.

***Cyllid Preifat***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi pob gwybodaeth a chanllawiau a baratoir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r cyhoedd mewn perthynas â'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru.

Yr ydym yn cynnal Uned Gyllid Preifat er mwyn datblygu partneriaethau rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gwaith yr uned yw cynorthwyo Gweinidogion i ddatblygu polisïau ar gyfer Partneriaethau Cyhoeddus/Preifat, gan gynnwys y Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru.

***Cyllidebau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r gyllideb a fabwysiedir gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn ogystal ag unrhyw gyllidebau atodol.

Mae'r gyllideb flynyddol yn dangos ein holl wariant, wedi ei drefnu yn unol â'r Prif Grwpiau Gwariant. Cyflwynir y gyllideb ar ffurf tabl, sy'n dangos y dyraniad cyllidebol, y swm, i bwy y dyrennir yr arian ac i ba bwrpas.

Rhoddir manylion am yr hyn a gafwyd ac a gyflawnwyd o ganlyniad i'r gwariant (ac eithrio gwariant Swyddfa'r Llywydd) yn Adroddiad Blynyddol y Prif Weinidog (gweler o dan '*Adroddiadau').*

***Cyngor Partneriaeth***

Gweler o dan '*Partneriaethau*'.

***Cyngor Partneriaeth Busnes***

Gweler o dan '*Partneriaethau*'.

***Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol***

Gweler o dan '*Partneriaethau'.*

***Cynlluniau***

Gweler o dan '*Cynlluniau Amaethyddiaeth*', '*Partneriaethau*', '*Cydraddoldeb Hiliol*' a '*Datblygu Cynaliadwy*'.

***Cynlluniau Amaethyddiaeth***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi rhestr o'r Cynlluniau Amaethyddiaeth a weithredir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn gyfrifol am weinyddu a gwneud taliadau ar gyfer nifer o gynlluniau cymhorthdal y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r rhestr yn rhoi esboniad byr o bob un o'r cynlluniau hyn.

***Cynllunio***

Erbyn diwedd 2003, bwriadwn gyhoeddi'r Cytundeb Cynllunio Defnydd Tir rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Bydd y Cytundeb ar Egwyddorion Cynllunio rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau cynllunio yn gosod fframwaith ar gyfer eu hymrwymiad i barhau i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaeth cynllunio agored, hygyrch ac effeithlon, a fydd yn hwyluso datblygu cynaliadwy.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio Defnydd Tir.

Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu'r system gynllunio yng Nghymru ac am sicrhau ei bod yn diwallu anghenion y bobl. Er mwyn cynorthwyo awdurdodau cynllunio i baratoi cynlluniau datblygu, mae'n cyhoeddi cyfres o Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio Defnydd Tir, sy'n ategu'r canllawiau polisi a roddir yn y brif ddogfen gynllunio, Polisi Cynllunio Cymru.

***Cyrff Cyhoeddus***

Gweler o dan '*Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC)* '.

***Cyrff Cyhoeddus a Noddir***

Gweler o dan '*Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad*'.

***Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC)***

Enw cyffredin ar y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw 'cwangos'.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi canlyniadau'r adolygiadau pum mlynedd o'r Cyrff Cyhoeddus Gweithredol ac Anweithredol a Noddir gan y Cynulliad

Nod yr adolygiadau hyn yw cryfhau'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'i CCNC. Rhoddir y pwyslais ar atebolrwydd, effeithiolrwydd a gwella'n barhaus.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi llythyrau cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru at y Cyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad.

Mae'r llythyrau cylch gwaith yn nodi'r targedau a'r allbynnau eraill y disgwylir i'r CCNC gweithredol eu cyrraedd. Mae'r llythyrau hyn yn goleuo cynnwys Cynlluniau Gweithredol yr CCNC Gweithredol, a hefyd yn goleuo'r modd y datblygir eu cynlluniau corfforaethol. Mae'r wybodaeth yn cynnwys manylion am fesurau a thargedau perfformiad yr CCNC Gweithredol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Datganiadau Rheoli a'r Memoranda Ariannol ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad.

Y Datganiad Rheoli sy'n nodi'r berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'i CCNC Gweithredol. Mae'n diffinio'r fframwaith y bydd yr CCNC yn gweithredu o'i fewn, ac ar y cyd â'r Memorandwm Ariannol mae'n nodi telerau ac amodau'r cyllid y byddwn yn ei ddarparu. Mae'r Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol hefyd yn nodi'r terfynau ar ddirprwyo, a rheolau, rheoliadau a chanllawiau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau'r CCNC, a'r modd y byddant yn atebol am y rhain.

***Cyrff Cyhoeddus Anadrannol***

Ar gyfer cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, gweler o dan '*Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad*'.

***Datblygu a Chyflawni Polisïau***

Gweler o dan '*Penderfyniadau Gweinidogol*' a '*Canllawiau*'.

***Datblygu Cynaliadwy***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Datblygu Cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy yn nodi'r modd y bwriadwn hyrwyddo Datblygu Cynaliadwy wrth gyflawni ein swyddogaethau. Mae'n ofynnol ein bod, ar ôl ymgynghori, yn paratoi Cynllun Datblygu Cynaliadwy ac yna yn ei gadw dan arolwg. Yn y flwyddyn sy'n dilyn pob etholiad arferol, mae'n ofynnol ystyried a ddylid diwygio neu ail-wneud y cynllun.

Ar gyfer 'Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy', gweler o dan '*Adroddiadau*'.

### *Datganiadau Barn*

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi, yn nhrefn eu dyddiadau, pob Datganiad Barn ysgrifenedig a gyflwynir yn ffurfiol gan Aelodau'r Cynulliad.

Gall unrhyw Aelod o'r Cynulliad heblaw Gweinidogion y Cabinet gyflwyno datganiad barn ffurfiol ar faterion sy'n effeithio ar Gymru. Gall Aelod arall gefnogi, gwrthwynebu neu wneud sylw ar ddatganiad o'r fath. Cyhoeddir Datganiadau Barn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, ar y dyddiad gwaith cyntaf ar ôl y diwrnod y cyflwynir y datganiad yn ffurfiol. Pan fo'r Aelod o'r Cynulliad wedi datgan buddiant, dangosir hynny yn eglur yn y datganiad ysgrifenedig.

### *Datganiadau i'r Wasg a Briffiau'r Cyfryngau*

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Datganiadau i'r Wasg a Briffiau'r Cyfryngau sydd wedi eu rhyddhau i'r cyfryngau.

Mae Swyddfa'r Wasg yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhyddhau gwybodaeth yn rheolaidd i'r wasg ac i newyddiadurwyr y cyfryngau, am bob agwedd ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynhelir cynhadledd wythnosol i'r wasg, a adwaenir fel y Briff i'r Cyfryngau gan y Prif Weinidog, lle y rhoddir gwybodaeth i newyddiadurwyr am achlysuron Gweinidogol arfaethedig, datganiadau pwysig, a'r pynciau sydd i'w trafod yn y Cyfarfodydd Llawn, ynghyd â chyfle i ofyn cwestiynau. Mae pob datganiad i'r wasg, a dogfennau 'r briffiau i'r cyfryngau ar gael (gan gynnwys cofnod o'r cwestiynau a ofynnwyd a'r atebion a roddwyd).

Mae Swyddfa'r Wasg yn Swyddfa'r Llywydd yn cyhoeddi Datganiadau i'r Wasg a hefyd yn rhyddhau gwybodaeth am weithgareddau'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn amrywio o'r adroddiadau sydd newydd eu lansio i wybodaeth am ddigwyddiadau arfaethedig, ac y mae'n cynnwys materion perthynol i fusnes y Cyfarfodydd Llawn.

### *Deddfwriaeth*

Mae deddfwriaeth yn perthyn naill ai i'r categori o ddeddfwriaeth sylfaenol (Deddfau Seneddol, neu Statudau, fel y'u gelwir hefyd) neu i'r categori o is-ddeddfwriaeth.

Deddfwriaeth sylfaenol, a wneir gan Senedd y DU, sy'n creu'r fframwaith cyfreithiol, tra bo Is-ddeddfwriaeth yn cyflenwi'r manylion.

Mae gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sylfaenol sydd ar hyn o bryd gerbron Senedd y DU (sef y 'Mesurau') ac sy'n effeithio ar Gymru, ar gael o Dþ'r Cyffredin ac o Dþ'r Arglwyddi. Y canlynol yw'r manylion cyswllt ar gyfer Tþ'r Cyffredin:

House of Commons Information Office,
House of Commons,
London,
SW1A 2TT
020 7219 4272
hcinfo@parliament.uk
www.parliament.uk

Y Canlynol yw'r Manylion cyswllt ar gyfer Tþ'r Arglwyddi:

Information Office
House of Lords
London, SW1A 0PW
020 7219 3107 (10.00 am tan 6.00 pm pan fo'r Tþ yn eistedd)

hlinfo@parliament.uk
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld/ldhome.htm

Wedi i Senedd y DU ei gwneud, cyhoeddir y ddeddfwriaeth sylfaenol gan The Stationery Office Limited (TSO) ar ran Argraffydd y Frenhines. Gellir cael copïau printiedig o lyfrfa'r TSO trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Llyfrfa'r TSO
18-19 Stryd Fawr,
Caerdydd
CF10 1PT
029 2039 5548
029 2038 4347
cardiff.bookshop@tso.co.uk

Gellir cael copïau printiedig ar-lein hefyd, o lyfrfa ar-lein TSO yn:
http://www.tso.co.uk/bookshop/bookstore.asp

Gellir edrych ar destun y ddeddfwriaeth sylfaenol, neu ei lwytho i

lawr, ar wefan HMSO yn:
http://www.hmso.gov.uk/acts.htm

Un o brif swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yw gwneud is-ddeddfwriaeth. O dan rai amgylchiadau hwyrach y bydd gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol hefyd gadarnhau neu gymeradwyo is-ddeddfwriaeth a gynigir gan eraill, cyn y gellir ei gwneud.

Ystyr is-ddeddfwriaeth yw Gorchmynion y Cyfrin Gyngor, gorchmynion, rheolau, rheoliadau, cynlluniau, gwarantau, is-ddeddfau ac offerynnau eraill a wnaed, neu sydd i'w gwneud, yn unol â darpariaethau sy'n gynwysedig mewn deddfwriaeth sylfaenol, ac sydd â'u heffaith yn ddeddfwriaethol. Gwneir yr offerynnau hyn yn aml ar ffurf a elwir yn "offeryn statudol". Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n galluogi gwneud yr offeryn yn pennu a wneir ef ar ffurf "offeryn statudol" ai peidio. Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o'r offerynnau statudol, heblaw mwyafrif y rhai a adwaenir fel "offerynnau statudol lleol" (a allai, er enghraifft, fod yn berthnasol i ardal ddaearyddol benodol yn unig), gael eu cyhoeddi a'u rhoi ar werth gan Argraffydd y Frenhines yn unol â Deddf Offerynnau Statudol 1946.

Gellir cael copïau printiedig o'r offerynnau statudol a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a gyhoeddir i'w gwerthu gan Argraffydd y Frenhines, trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Gellir gweld testun offerynnau statudol y Cynulliad Cenedlaethol a gyhoeddwyd i'w gwerthu ar wefan HMSO yn:
http://www.wales-legislation.hmso.gov.uk/legislation/wales/w-stat.htm

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol nad yw wedi ei chyhoeddi fel arall i'w gwerthu yn unol â Deddf Offerynnau Statudol 1946.

Mae'r is-ddeddfwriaeth sy'n perthyn i'r dosbarth hwn yn cynnwys:

- Offerynnau Statudol Lleol - er enghraifft gorchmynion sy'n pennu cyfyngiadau cyflymder ar hydoedd penodol o gefnffordd yng Nghymru;
- Gorchmynion, cynlluniau, is-ddeddfau neu ganllawiau statudol a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol os ydynt yn cynnwys deddfwriaeth;
- Is-deddfwriaeth a gyflwynir gan Weinidog y Goron i'w chadarnhau neu ei chymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol, os nad yw wedi ei chyhoeddi fel arall i'w gwerthu;
- Rhai is-ddeddfau penodol y mae cyrff statudol eraill neu awdurdodau lleol yn cynnig eu gwneud, ac y rhoddwyd pwerau trwy Ddeddf Seneddol i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo neu eu cadarnhau.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi is-ddeddfwriaeth drafft, y mae'n ofynnol ei gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried mewn cyfarfod llawn.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn pennu bod is-ddeddfwriaeth drafft yn cael ei gosod yn ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol pan fo'n ofynnol ei chymeradwyo gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi drafftiau o'r offerynnau statudol lleol a gynigir i'w gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol onid yw'n anymarferol gwneud hynny yn rhesymol.

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn pennu bod offerynnau statudol lleol yn cael eu gwneud trwy eu llofnodi gan neu ar ran Gweinidog y Cynulliad. Cyn eu llofnodi, mae'r Gweinidog y Cynulliad fel rheol yn rhoi rhybudd o 10 diwrnod i Aelodau'r Cynulliad o'i fwriad i wneud yr offeryn statudol lleol.

Fodd bynnag, gall Gweinidog y Cynulliad beidio â rhoi 10 diwrnod o rybudd i Aelodau'r Cynulliad o'i fwriad i wneud yr offeryn statudol lleol os yw'r Gweinidog yn ystyried na ellir gwneud hynny yn rhesymol ymarferol. Mewn achos o'r fath, mae'n bosibl na chyhoeddir yr offeryn statudol drafft.

Yr ydym yn ymrwymo, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i gyhoeddi bwletin wythnosol sy'n nodi'r offerynnau statudol (ac eithrio offerynnau statudol lleol) a ystyriwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn paratoi, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bwletin wythnosol o'r offerynnau statudol (ac eithrio offerynnau statudol lleol), gan nodi hynt y ddeddfwriaeth trwy weithdrefnau Cynulliad Cenedlaethol.

Yn bennaf, mae'r bwletin yn nodi'r offerynnau statudol, ac eithrio offerynnau statudol lleol, a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu ar ei ben ei hunan.

***Deisebau i'r Cynulliad Cenedlaethol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi manylion y deisebau a gyfeirir i'r Cynulliad Cenedlaethol ac a geir trwy'r Swyddfa Gyflwyno ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael, ac os yw'n dewis, yn ystyried, deisebau ar faterion y mae'n gyfrifol amdanynt. Y Llywydd sy'n gyfrifol am gael y deisebau a gyfeirir i'r Cynulliad

Cenedlaethol, ac am hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'u cynnwys ac o nifer y llofnodion.

***Diogelu Data***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r canllawiau mewnol cyffredinol a ddarperir i holl staff y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1998.

Paratoir canllawiau, a rhoddir hwy ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod y modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn prosesu data personol wrth ymgymryd â'i swyddogaethau, yn cydymffurfio â gofynion Deddf Diogelu Data 1998. Enghreifftiau o hyn yw'r cyflwyniadau i Ddeddf Diogelu Data 1998, i geisiadau mynediad gan wrthrych y data, datgelu data personol i drydydd parti, ac i ddiogelu data a negeseuon e-bost.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi taflen wybodaeth i gynorthwyo aelodau'r cyhoedd i wneud cais am fynediad gan wrthrych y data, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

O ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 1998, gall aelod o'r cyhoedd wneud cais am wybodaeth a ddelir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Os hoffech gael cyngor neu gymorth i baratoi cais o'r fath, trowch os gwelwch yn dda at y manylion cyswllt a roddir yn yr adran 'Mannau Cyswllt' yn y Cynllun Cyhoeddi hwn.

***Dirprwyo Swyddogaethau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Cronfa Ddata Dirprwyaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Gronfa Ddata yn rhoi manylion am swyddogaethau statudol y Cynulliad Cenedlaethol, a'r modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi dirprwyo swyddogaethau, naill ai (i) trwy'r Prif Weinidog i Weinidogion y Cabinet a/neu, pan fo'n briodol, i staff y Cynulliad Cenedlaethol, neu (ii) i Bwyllgor y Tþ.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Dogfennau a Osodir Gerbron***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r dogfennau a 'osodir gerbron' y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol mae'n ofynnol bod rhai dogfennau - er enghraifft adroddiadau, gorchmynion, rheoliadau - yn cael eu 'gosod' yn ffurfiol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rhestr ar gael o'r holl Ddogfennau a Osodwyd Gerbron, yn gyfredol ac o'r gorffennol.

***Fframweithiau/Cynlluniau Strategol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Fframweithiau Strategol a chynlluniau Strategol, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae Fframweithiau Strategol a Chynlluniau Strategol yn esbonio prif nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â'r economi, yr amgylchedd a'r gymdeithas yng Nghymru.

***Grantiau, Benthyciadau a Darparu Gwarantau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth ac yn benodol pan fyddai cyhoeddi gwybodaeth yn niweidiol i fuddiannau masnachol trydydd parti, mewn perthynas â'n polisi ar ddyfarnu grantiau, benthyciadau a darparu gwarantau.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r manylion am bob rhwymedigaeth amodol mewn perthynas â gwarantau, indemniadau a llythyrau cysur a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, a allai fod dros £100,000 ac sydd y tu hwnt i gwrs arferol swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol .

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r manylion am bob rhodd a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol sydd dros £100,000 neu sy'n sylweddol wahanol i'r rhoddion arferol a wneir gan gyrff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Erbyn diwedd 2003 bwriadwn gyhoeddi rhestr gyfeirio o'r cynlluniau grantiau a weithredir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyhoeddir y dosbarth hwn o wybodaeth am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Mae pwerau gan y Cynulliad Cenedlaethol i roi grantiau,

benthyciadau a gwarantau ariannol wrth arfer ei swyddogaethau a cheisio cyflawni ei amcanion. Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau'r grantiau mewn amryw o ffyrdd. Mae taliadau grant yn amodol ar gael tystysgrif gan archwilwyr derbynnydd y grant, sy'n tystio bod y grant wedi ei wario i ddibenion y rhoddwyd ef ar eu cyfer. Rhaid hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn benodol, yn unol â gweithdrefnau'r Rheolau Sefydlog, ynghylch pob cynnig mewn perthynas â benthyciad, rhodd neu warant ariannol sydd dros £100,000, cyn y gall Gweinidog perthnasol y Cynulliad gymeradwyo'r cynnig.

Gweler hefyd o dan *'Cyllid' a 'Sector Gwirfoddol'.*

***Gwneud Penderfyniadau***

Gweler o dan '*Penderfyniadau Gweinidogol*' '*Dirprwyo Swyddogaethau*' a '*Canllawiau*'.

***Gwybodaeth Amgylcheddol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r canllawiau cyffredinol a gymerir i ystyriaeth gan y staff mewn perthynas â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (fel y'u newidiwyd), neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n olynu'r rheoliadau hynny.

Mae'r canllawiau yn darparu cyngor i'r staff i'w helpu i gydymffurfio â gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (fel y'u newidiwyd) neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n olynu'r rheoliadau hynny. Mae'r Canllawiau ar y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol cyfredol, a gyhoeddir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, ar gael o'u gwefan yn :
http://www.defra.gov.uk/environment/pubaccess/guidance/index.htm

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi ein gweithdrefnau ar gyfer trin ceisiadau am wybodaeth a wneir yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (fel y'u newidiwyd) neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n olynu'r rheoliadau hynny a manylion o'r cymorth a'r cyngor y gallwn eu rhoi ar gyfer llunio ceisiadau.

Disodlir y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol cyfredol gan reoliadau sydd i'w gwneud yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Er na pharatoir y rheoliadau hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol, byddwn yn sicrhau y cyhoeddir canllawiau ar y modd y bwriadwn gydymffurfio â cheisiadau.

Os oes arnoch angen cyngor neu gymorth i lunio cais, os gwelwch yn dda trowch at y manylion cyswllt a roddir yn yr adran 'Mannau

Cyswllt' yn y Cynllun Cyhoeddi.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwn yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (fel y'u newidiwyd) neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n olynu'r rheoliadau hynny.

Pan ydym, wrth ymateb i gais, dan rwymedigaeth i ddatgelu gwybodaeth yn unol â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 (fel y'u newidiwyd) neu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n olynu'r rheoliadau hynny, bydd manylion o'r wybodaeth honno yn ymddangos yn y rhestr.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Henebion ac adeiladau hanesyddol***

Gweler o dan '*Amgylchedd Hanesyddol Cymru*'.

***Hysbysiadau Cyhoeddus***

Gweler o dan '*Cyhoeddiadau Achlysurol'.*

***Iaith Gymraeg***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

O 2004 ymlaen bwriadwn gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol ar y modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio â'i Chynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn nodi'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu cyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd yn y Gymraeg, ac yn adlewyrchu ystyriaethau ynglþn â'r iaith mewn meysydd polisi.

***Is-ddeddfwriaeth***

Gweler o dan '*Deddfwriaeth*'.

***Llyfrynnau***

Gweler o dan '*Cyhoeddiadau Achlysurol'.*

***Llywodraeth Cynulliad Cymru***

Gweler o dan '*Strwythur a Threfniadaeth*'.

***Mapiau***

Gweler o dan '*Ardaloedd a Gynorthwyir*' a '*Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru'.*

***Memorandwm Dealltwriaeth***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Memorandwm Dealltwriaeth a wnaed rhwng Cabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban, Pwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU.

Mae Cabinet y Cynulliad, Gweinidogion yr Alban, Pwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar Femorandwm Dealltwriaeth sy'n nodi, yn fras, y modd y byddant yn cydweithio ar faterion o ddiddordeb cyffredin.

Gweler hefyd o dan '*Concordatiau*' a '*Pwerau a Chyfrifoldebau*'.

***Newyddion o'r Cynulliad Cenedlaethol***

Gweler o dan '*Datganiadau a Briffiau i'r Wasg*'.

***Offerynnau Statudol***

Gweler o dan '*Deddfwriaeth*'.

***Pamffledi***

Gweler o dan '*Cyhoeddiadau Achlysurol'.*

***Papurau Ymgynghorol ac Atebion***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Papurau Ymgynghorol, a baratoir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddibenion cyhoeddus.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r atebion neu grynodebau o'r atebion i Bapurau Ymgynghorol o'r fath, gan hepgor enw'r awdur neu enwau'r awduron ar eu cais.

Pan wneir cynigion ynglÞn â pholisïau neu gynlluniau mawr newydd, neu wrth adolygu rhai cyfredol, gall y Cynulliad Cenedlaethol neu

Lywodraeth Cynulliad Cymru wahodd barn buddianwyr ac aelodau'r cyhoedd, a chyhoeddi naill ai'r atebion neu grynodeb o'r atebion hynny. Mae Hen Bapurau Ymgynghorol hefyd ar gael. Ni chynhwysir atebion unigol i'r ymgyngoriadau os yw'r atebwyr wedi gwneud cais i'w cadw'n gyfrinachol.

Gweler hefyd o dan '*Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol'.*

***Partneriaethau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r agendâu, cofnodion a phapurau, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Busnes.

Fforwm yw'r Cyngor Partneriaeth Busnes sy'n meithrin perthynas dda rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a chyfundrefnau busnes ac undebau llafur (sef y 'Partneriaid Cymdeithasol'). Cadeirir y Cyngor gan y Prif Weinidog, ac y mae'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Mae dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i baratoi cynllun sy'n nodi'r modd y mae'n bwriadu cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru. Yn unol â Chynllun y Cynulliad Cenedlaethol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol a llywodraeth leol yng Nghymru wedi sefydlu'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Protocol ar gyfer trin busnes y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Mae'r Protocol yn amlinellu'r modd y bydd swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydweithio wrth weinyddu busnes y Cyngor Partneriaeth.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r agendâu, cofnodion a phapurau cyfarfodydd, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, mewn perthynas â chyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Corff ymgynghorol gyda 26 o aelodau yw'r cyngor Partneriaeth, sy'n hyrwyddo cydweithio a chydweithredu rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac awdurdodau lleol. Mae'r Cyngor yn cynnal cyfarfodydd chwarterol. Hysbysebir ei gyfarfodydd yn Hysbysiadau Cyhoeddus y Western Mail. Cyhoeddir yr agendâu ar y wefan ddwy wythnos cyn y cyfarfodydd. Rhoddir y cofnodion a'r papurau ar gyfer pob cyfarfod ar gael ddwy wythnos cyn y cyfarfod nesaf.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r Cynllun Sector Gwirfoddol.

Mae dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i baratoi cynllun sy'n nodi'r modd y mae'n bwriadu hyrwyddo buddiannau cyrff gwirfoddol perthnasol yng Nghymru. Yn unol â Chynllun y Cynulliad

Cenedlaethol, yr ydym wedi sefydlu Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r agendâu, cofnodion a phapurau, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, mewn perthynas â Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

Mae Cynllun y Sector Gwirfoddol yn galw am gyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynrychiolwyr y rhwydweithiau sector gwirfoddol perthnasol.

***Penderfyniadau Gweinidogol***

Erbyn diwedd 2003, bwriadwn gyhoeddi'r Adroddiadau Penderfyniad sy'n cynnwys y ffeithiau a gymerir i ystyriaeth gan Weinidogion y Cabinet wrth wneud prif benderfyniadau polisi, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu gwybodaeth i'r Gweinidogion i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau. Cyhoeddir y ffeithiau a'r dadansoddiad o'r ffeithiau sydd y tu ôl i'r penderfyniadau hynny, ynghyd â manylion am amseriad y penderfyniadau, yn yr Adroddiadau Penderfyniad.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Penderfyniadau'r Cynulliad***

Gweler o dan '*Penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol'.*

***Penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Penderfyniadau'r Cynulliad fesul mis.

Mae manylion ar gael am bob cynnig a basiwyd yn y cyfarfodydd llawn - yn nhrefn eu dyddiadau, gydag enw'r grŵp gwleidyddol a wnaeth y cynnig gyferbyn â phob cofnod.

***Penodiadau Cyhoeddus***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r canllawiau cyffredinol i'r staff ynglŷn â Phenodiadau Cyhoeddus a wneir gan Weinidogion y Cabinet ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn recriwtio unigolion ar gyfer penodiadau cyhoeddus ar Gyrff cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Cyrff Gweithredol y GIG yng Nghymru a chyrff eraill. Gweinidogion y Cynulliad sy'n gwneud y penodiadau , a gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod. Gwneir y penodiadau gweinidogol ar gyrff cyhoeddus yn unol â'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus, sy'n seiliedig ar God Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r canllawiau cyffredinol i'r staff yn rhoi cyngor pellach ar sut i weithredu'r Cod.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus, gwybodaeth am y swyddi gwag cyfredol mewn perthynas â'r Cyrff Cyhoeddus yng Nghymru y mae Gweinidogion y Cabinet yn gwneud penodiadau arnynt.

Mae'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus yn mynnu bod y cyhoedd yn cael gwybod am y lleoedd gwag ar gyfer penodiadau cyhoeddus trwy gyfrwng rhyw fath o gyhoeddusrwydd, ac y dylai'r trefniadau fod yn gymesur ag amlygrwydd y penodiad cyhoeddus dan sylw. Ar gyfer y penodiadau gyda'r proffil amlycaf (a ddisgrifir yn y Cod fel y penodiadau 'haen uchaf') mae rhyw fath o gyhoeddusrwydd taledig yn arferol, er enghraifft hysbyseb yn y wasg. Gallai'r trefniadau ar gyfer swyddi proffil is gynnwys ysgrifennu ar gyrff neu unigolion sydd â diddordeb yn y maes pwnc dan sylw.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus, gwybodaeth am benodiadau a wnaed ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru gan Weinidogion Cabinet, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Mae'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus yn manylu ar y wybodaeth y dylid ei chyhoeddi ar ffurf datganiad i'r wasg mewn perthynas â phenodiadau 'haen uchaf'. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad byr o'r corff y gwnaed y penodiad arno a'i swyddogaethau; crynodeb byr o yrfa / profiad y sawl a benodwyd; manylion am ateb y sawl a benodwyd i'r cwestiwn gweithgarwch gwleidyddol; am ba hyd y bydd y penodiad yn parhau ac a yw'n swydd daledig ai peidio; rhestr o unrhyw benodiadau gweinidogol eraill a ddelir, ac o unrhyw dâl a dderbynnir mewn perthynas â hwy.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus, y wybodaeth ystadegol am Benodiadau Cyhoeddus newydd a wnaed ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru gan Weinidogion Cabinet.

Yn unol â'r Cod Ymarfer, darperir gwybodaeth am benodiadau newydd a wneir rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth bob blwyddyn i'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nifer y penodiadau a wnaed; rhyw; lleiafrifoedd ethnig; oedran; anabledd; gweithgarwch gwleidyddol fesul plaid (gan gynnwys manylion am lefel y gweithgarwch gwleidyddol); nifer yr ail-benodiadau; ac a yw'r sawl a benodir yn dal rhagor nag un penodiad. Yn ychwanegol, rhennir y categorïau hyn yn fandiau tâl.

Cyhoeddir y wybodaeth hon am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Gweler hefyd o dan *'Codau Ymarfer'.*

***Pleidleisiau a Thrafodion Busnes y Cynulliad Cenedlaethol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r manylion am bleidleisiau a thrafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar ddiwedd pob cyfarfod llawn o'r Cynulliad Cenedlaethol, cyhoeddir trosolwg dwyieithog byr o'r trafodion. Ynddo, cofnodir yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y cyfarfod yn nhrefn amser, gan gynnwys nifer y cwestiynau a ofynnwyd i'r Gweinidogion, y pynciau y gwnaed datganiadau arnynt gan y Gweinidogion, y cynigion a'r gwelliannau a drafodwyd a'r pleidleisiau a fwriwyd. Cynhwysir manylion hefyd am unrhyw ddogfennau a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac un rhyw ddeisebau a gafwyd. Cyhoeddir manylion am y pleidleisiau a'r trafodion ar ôl y cyfarfod o'r Cynulliad Cenedlaethol.

***Posteri***

Gweler o dan '*Cyhoeddiadau Achlysurol*'.

***Protocolau***

Gweler o dan '*Aelodau'r Cynulliad*' a '*Partneriaethau*'.

***Pwerau a Chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi rhestr o'r meysydd, yn fras, lle mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau a chyfrifoldebau.

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer a'r cyfrifoldeb i ddatblygu a gweithredu polisïau mewn amrediad o feysydd. Er enghraifft, gallwn:

- Gyllido, cyfarwyddo a gwneud penodiadau ar gyrff GIG yng Nghymru a'u dal yn atebol.
- Pennu cynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru.
- Darparu cymorth ariannol i fusnesau yng Nghymru.
- Gweinyddu cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.
- Hyrwyddo cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r rhestr o'r trefniadau a wneir yn

unol ag adran 41 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Cytundebau yw'r trefniadau adran 41, lle mae'r Cynulliad Cenedlaethol a chyrff perthnasol eraill (megis Adrannau'r Llywodraeth yn San Steffan neu awdurdodau lleol) yn cytuno y gall y naill gyflawni swyddogaethau'r llall, neu y gallant ddarparu rhai gwasanaethau penodol i'w gilydd. Mae’r rhestr yn rhoi manylion cryno o'r swyddogaethau sydd dan sylw a'r trefniadau a wnaed.
Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

Gweler hefyd o dan ‘*Concordatiau’ a ‘Memorandwm Dealltwriaeth’.*

***Pwyllgorau'r Cynulliad***

Gweler o dan ‘*Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol*’.

***Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol***

Sefydlwyd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi manylion am gylch gwaith ac aelodaeth gwahanol Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol ac unrhyw Is-bwyllgorau a ffurfir gan y Pwyllgorau.

> Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn agored i'r cyhoedd a hefyd yn cael eu darlledu. Gwaith y Pwyllgorau Pwnc yw datblygu polisïau a chraffu ar y modd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn arfer ei swyddogaethau mewn meysydd megis addysg ac iechyd. Y Pwyllgorau Rhanbarth sy'n cynrychioli anghenion a buddiannau eu priod ardaloedd, gan gyfleu materion sydd o bwys yn lleol i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol llawn ac i sylw'r Pwyllgorau Pwnc. Yn ychwanegol, mae nifer o bwyllgorau ar gyfer meysydd megis Archwilio, Cyfleoedd Cyfartal a Materion Ewropeaidd. Mae gwybodaeth ar gael am gylchoedd gwaith y Pwyllgorau, eu prif flaenoriaethau, eu haelodaeth, pa mor aml y maent yn cyfarfod a pha bryd, yn ogystal â manylion cyswllt.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi agendâu, cofnodion a phapurau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol, gan eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth neu sy'n esempt rhag ei datgelu o ganlyniad i Reolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.

Ein nod yw cyhoeddi agendâu a phapurau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgorau a gynhelir yn gyhoeddus o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Byddwn y ceisio cyhoeddi cofnodion Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhelir yn gyhoeddus o fewn chwe diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi cofnod gair-am-air o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol lle y gwrandewir ar dystiolaeth ffurfiol.

Dan rai amgylchiadau cedwir cofnod gair-am-air o'r trafodion mewn pwyllgor. Er enghraifft, gallai'r Pwyllgor Archwilio wrando ar dystiolaeth ffurfiol gan dystion mewn perthynas ag adroddiadau a gyhoeddir gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Cyhoeddir y dystiolaeth mewn fformat dwyieithog lawn o fewn 15 diwrnod ar ôl y cyfarfod.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r rhaglenni gwaith ar gyfer Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gan bob Pwyllgor Pwnc raglen waith sy'n nodi ei flaenoriaethau

ar gyfer y 12 i 18 mis nesaf, ynghyd â rhaglenni gwaith manwl ar gyfer pob tymor.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r papurau ymgynghorol a baratoir gan Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal adolygiadau neu ymchwiliadau i bolisïau, cynlluniau neu feysydd pwnc o fewn eu portffolio, ac weithiau byddant yn paratoi papurau ymgynghorol. Mae'r papurau hyn yn gwahodd sylwadau gan aelodau'r cyhoedd a buddianwyr, cyn i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad terfynol a'i argymhellion.

Ar gyfer adroddiadau a gyflwynir gan y Pwyllgorau Pwnc i'r cyfarfodydd llawn, gweler o dan '*Adroddiadau'.*

***Recriwtio***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi'r swyddi gwag a disgrifiadau o'r cyfleoedd cyflogaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi ein Polisi Hysbysebion Recriwtio.

Yr ydym yn gyflogwr Cyfleoedd Cyfartal gyda statws Buddsoddwr mewn Pobl (IiP). Mae manylion llawn ar gael am y swyddi gwag cyfredol, ynghyd â chanllawiau ar sut i wneud cais. Darperir gwybodaeth gyffredinol hefyd am leoliadau gwaith, lleoliadau diwydiannol/blwyddyn ryngosod ar gyfer myfyrwyr, cyfleoedd cyflogi achlysurol, a chynllun Cymrodoriaeth Windsor ar gyfer pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Fframwaith Cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y staff ym mhob gradd.

Y Fframwaith Cymhwysedd sy'n amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan staff y Cynulliad Cenedlaethol.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedalethol.

Y Rheolau Sefydlog yw'r rheolau sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal busnes y Cynulliad Cenedlaethol.

***Rhestrau Cyhoeddiadau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi, yn fisol ac yn flynyddol, rhestrau o'r wybodaeth a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r rhestrau hyn yn cynnwys cyhoeddiadau a gyhoeddir ar y cyd ag Adrannau yn Llywodraeth y DU a chyrff eraill.

Paratoir rhestr bob mis o gyhoeddiadau newydd gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cynulliad Cymru Cydosodir y rhestr gyhoeddiadau flynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn galendr. Mae'r ddwy restr yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol i ddod o hyd i gyhoeddiadau ac i'w harchebu. Gellir edrych hefyd yn y Catalog Cyhoeddiadau ar-lein – sydd ar gael yn www.publications.wales.gov.uk. Mae'r Catalog hwn yn caniatáu chwilio am gyhoeddiadau, a gellir archwilio cynnwys llawer ohonynt ar-lein. Gellir archebu'r cyhoeddiadau ar-lein yn ogystal. Anfonir cyngor gyda throad yr e-bost ar sut i gael cyhoeddiadau y codir pris amdanynt, a theitlau na chyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol na Llywodraeth Cynulliad Cymru.

***Rhesymau am Benderfyniadau***

Gweler o dan '*Penderfyniadau Gweinidogol*'.

***Rhyddid Gwybodaeth***

Gweler o dan '*Ceisiadau am Wybodaeth*'.

***Sector Gwirfoddol***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi Arweiniad Grantiau'r Sector Gwirfoddol

Mae'r Arweiniad hwn yn darparu gwybodaeth am yr amrediad eang o grantiau a roddir ar gael gan y Cynulliad Cenedlaethol i gyrff gwirfoddol yng Nghymru.

Gweler hefyd o dan '*Partneriaethau' a 'Codau Ymarfer'.*

***Seddau yn Siambr y Cynulliad Cenedlaethol***

Gweler o dan '*Aelodau'r Cynulliad*'

***Strwythur a Threfniadaeth***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth am strwythur a threfniadaeth y Cynulliad Cenedlaethol, a baratowyd i'w defnyddio gan y cyhoedd neu er gwybodaeth i'r cyhoedd.

Mae'r wybodaeth am y strwythur a'r drefniadaeth ar ffurf mynegai sy'n rhoi manylion am Swyddfa'r Llywydd, y Cabinet, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol s strwythur staffio'r Cynulliad Cenedlaetho, gan gynnwys yr Asiantaethau Gweithredol Cadw a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi siart cyfundrefn uwch reolwyr y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r siart hon, sydd ar ffurf cart achau, yn rhoi enwau, swyddogaethau a manylion cyswllt pob un o'r uwch swyddogion.

Gweler hefyd o dan '*Pwerau a Chyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol*' a '*Bwrdd Gweithredu*'.

***Strwythur Cyfundrefnol y Cynulliad Cenedlaethol***

Gweler o dan '*Strwythur a Threfniadaeth*'.

***Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru***

Gweler o dan '*Cyllid Ewropeaidd*'

***Swyddfa'r Llywydd***

Mae Swyddfa'r Llywydd yn darparu gwasanaeth diduedd i bob Aelod

o'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithredu'n llwyddiannus fel corff a etholwyd yn ddemocrataidd. Mae'n darparu gwasanaeth clerigol ar gyfer y cyfarfodydd llawn a'r pwyllgorau, gwasanaethau gwybodaeth ac addysg i'r cyhoedd, y Cofnod Trafodion, gwasanaethau ymchwil a llyfrgell i Aelodau'r Cynulliad, gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig ac ar y pryd, yn ogystal ag amrywiaeth o wasanaethau cymorth eraill i Aelodau'r Cynulliad.

Gweler hefyd o dan '*Strwythur a Threfniadaeth'.*

***Swyddi***

Gweler o dan '*Recriwtio*'.

***Taflenni***

Gweler o dan ' *Cyhoeddiadau Achlysurol*'

***Ymchwil***

O fis Gorffennaf 2003, bwriadwn gyhoeddi cyfeiriadur o'r prosiectau ymchwil a ymgymerir, a gomisiynir neu a gyllidir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac eithrio unrhyw wybodaeth y gellir yn briodol wrthod ei datgelu yn unol ag unrhyw un o'r esemptiadau a nodir yng Nghod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Bydd y cyfeiriadur prosiectau ymchwil hwn yn amcanu i gynnwys manylion am bob prosiect ymchwil, gwerthuso ac adolygu a ymgymerir, a gomisiynir neu a gyllidir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r meysydd pwnc y comisiynir prosiectau ynddynt yn cwmpasu holl amrediad cyfrifoldebau'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y cyfeiriadur yn cynnwys gwybodaeth am y maes/meysydd polisi y bwriedir i'r ymchwil eu cefnogi, amcanion y prosiect, y cwmpas daearyddol a'r amserlen. Er mai ar y prosiectau a ymgymerir yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol (ar y pryd) y bydd y cyfeiriadur yn canolbwyntio, bydd hefyd yn cynnwys rhai o'r prosiectau sydd wedi eu cwblhau. Bydd y rhan fwyaf o'r adroddiadau unigol ar gael hefyd, a restrir yn y cyfeiriadur o'r prosiectau ymchwil a ymgymerir.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun hwn.

***Ystadegau***

Yr ydym yn ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth ystadegol, a ddosberthir gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddibenion cyhoeddus. ***[£]***

Paratoir pum math gwahanol o gynnyrch:

- **Cyhoeddiadau Ystadegol** - mae'r rhain fel arfer yn gyfrolau o wybodaeth ystadegol ar ffurf tablau, ac yn ymwneud â maes pwnc penodol;
- **Datgeliadau Ystadegol Cyntaf –** mae'r rhain yn hysbysu ystadegau neu gyhoeddiadau newydd, ac yn gweithredu fel datganiadau i'r wasg yn ogystal â chyhoeddiadau ystadegol cryno;
- **Bwletinau Ystadegol** – mae'r rhain yn cyflwyno dadansoddiadau newydd o'r data sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd;
- **Ystadegau Pennawd Cymru** - mae'r rhain yn cyflwyno'r pwyntiau ystadegol allweddol mewn fformat cryno. Yn yr Ystadegau Pennawd hefyd, cyflwynir y pwyntiau amlycaf ym mhob un o'r uchod;
- **Bwletinau Cyfeirio Ystadegol –** dogfennau cyfeirio yw'r rhain, megis cynlluniau gwaith , adroddiadau technegol a chatalogau o ffynonellau data.

Mae gwybodaeth ar gael hefyd am gyhoeddiadau ystadegol arfaethedig.

.

## *Mannau Cyswllt*

***sut y gellir cael copïau o'n cyhoeddiadau?***

**Cyhoeddiadau**

Dylid anfon ceisiadau am gopïau o gyhoeddiadau'r Cynulliad Cenedlaethol at :

Y Ganolfan Gyhoeddiadau,
Glanfa'r Cynulliad,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Stryd Pierhead,
Bae Caerdydd
CF99 1NA

029 2089 8688 neu 029 2089 8600
029 2089 8947
assembly-publications@wales.gsi.gov.uk

Os na wyddoch y manylion llawn am yr hyn sydd arnoch ei angen, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gyhoeddiadau.

***Sut y gellwch…***

**Atborth a gwybodaeth bellach**

***… wneud sylwadau ar y Cynllun ?***

Cynllun Cyhoeddi

Gobeithiwn y bydd y Cynllun Cyhoeddi hwn yn bodloni eich anghenion. Yr ydym yn croesawu awgrymiadau am ddosbarthiadau ychwanegol o wybodaeth y gellid eu cynnwys yn y dyfodol - yn ogystal ag awgrymiadau sut y gellir gwneud y wybodaeth a gyhoeddir yn fwy hygyrch i chi.

dylid anfon unrhyw gwestiynau, sylwadau neu gwynion ynghylch y Cynllun hwn at Gyfarwyddwr yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun Cyhoeddi. Y manylion cyswllt yw:

Cyfarwyddwr yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

029 20825111

PublicationScheme@wales.gsi.gov.uk
www.publications.wales.gov.uk

***… gofyn am wybodaeth na chynhwysir yn y Cynllun ?***

Ceisiadau am Wybodaeth (gan gynnwys Gwybodaeth Amgylcheddol)

Gellwch hefyd wneud ceisiadau unigol am wybodaeth na chyhoeddir yn unol â'r Cynllun hwn.

Ymdrinnir â cheisiadau am wybodaeth yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth a/neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Dylid cyfeirio ceisiadau at Gyfarwyddwr yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth yn y cyfeiriad uchod. Dylid anfon ceisiadau am wybodaeth gyffredinol ynglþn â Rhyddid Gwybodaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol at y Cyfarwyddwr Llywodraeth Agored a Materion Cyfansoddiadol yn y cyfeiriad :

Cyfarwyddwr Llywodraeth Agored a Materion Cyfansoddiadol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

029 20825111

***… gofyn am wybodaeth o fewn cwmpas Diogelu Data?***

Ceisiadau Diogelu Data

Gellwch wneud cais hefyd fel unigolyn, am eich data personol chi, a ddelir gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998. Dylid cyfeirio'r ceisiadau at:

Y Swyddog Diogelu Data
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

029 20823999
029 20823084
DataProtectionOfficer@wales.gsi.gov.uk

***… cwyno?***

Cwynion

Os oes gennych gŵyn ynghylch unrhyw beth y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol amdano, hoffem gael gwybod. Os gwelwch yn dda, cysylltwch â'r Swyddog Cwynion, fel a ganlyn:

Swyddog Cwynion y Cynulliad Cenedlaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

029 20801378
029 20823356
complaints@wales.gsi.gov.uk

***… cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth?***

Y Comisiynydd Gwybodaeth

Y Comisiynydd Gwybodaeth sy'n goruchwylio'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn ogystal â'r Ddeddf Diogelu Data ac ef sy'n gyfrifol am gymeradwyo Cynlluniau Cyhoeddi. Os oes unrhyw faterion ynglŷn â'r eitemau hyn yr hoffech eu codi gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, y canlynol yw'r manylion cyswllt:

Y Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire
SK9 5AF

01625 545 745
01625 524 510
mail@dataprotection.gov.uk
www.dataprotection.gov.uk

**ATODIAD A**

## *Beth sy'n newydd?*

**Gwybodaeth sydd i'w rhyddhau am y tro cyntaf yn unol â'r Cynllun Cyhoeddi hwn**

Adroddiadau Penderfyniad sy'n cynnwys y ffeithiau a gymerir i ystyriaeth gan Weinidogion Cabinet wrth wneud prif benderfyniadau polisi.

Agendâu, cofnodion a phapurau mewn perthynas â chyfarfodydd rheoli misol y Bwrdd Gweithredu.

Canllawiau i'r staff ar Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cabinet ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru.

Cofrestr Asedau Gwybodaeth.

Cronfa Ddata Dirprwyaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cyfeiriadur Canllawiau Mewnol ar Faterion sy'n Effeithio ar y Cyhoedd.

Cyfeiriadur prosiectau ymchwil a ymgymerir, a gomisiynir neu a gyllidir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Cyfeirlyfr Cyllid (Finance Manual) y Cynulliad Cenedlaethol.

Cytundeb Cynllunio Defnydd Tir rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y staff.

Gweithdrefnau ar gyfer trin ceisiadau am wybodaeth yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Gwybodaeth ystadegol am Benodiadau Cyhoeddus newydd a wnaed ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru gan Weinidogion Cabinet.

Llawlyfr Cyllid (Finance Handbook) y Cynulliad Cenedlaethol.

Porth i Bolisïau.

Rhestr gyfeirio o gynlluniau grantiau a weithredir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhestr o'r trefniadau a wnaed yn unol ag adran 41 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

Rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwn o ganlyniad i geisiadau a wneir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwn yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

**ATODIAD B**

***Beth sydd ar gael yn awr?***

Gwybodaeth ar gael o fis Tachwedd 2002

Adroddiad Blynyddol ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol ar y Trefniadau Cyfle Cyfartal.

Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol.

Adroddiad Blynyddol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adroddiad Blynyddol Ombwdsman Gweinyddiaeth Cymru.

Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Cymru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Fferylliaeth.

Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Llywydd.

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy.

Adroddiad Blynyddol y Cynllun Llywodraeth Leol.

Adroddiad Blynyddol y Gyllideb.

Adroddiad Blynyddol y Prif Weinidog.

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.

Adroddiad Cynnydd Blynyddol ar Cymru'n Ennill - strategaeth ddatblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ar arwyddocâd Deddfwriaeth Ewropeaidd.

Adroddiadau a gyflwynir gan Bwyllgorau Pwnc.

Adroddiadau a osodir gerbron gan y Pwyllgor Archwilio.

Adroddiadau ad hoc y tybir eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd.

Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'r Cynulliad.

Adroddiadau Cyd-adolygu.

Adroddiadau'r Pwyllgor Deddfwriaeth.

Adroddiadau'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â materion a gyfeirir i'r Pwyllgor gan y Llywydd.

Agendâu a chofnodion cyfarfodydd llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

Agendâu, cofnodion a phapurau cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Agendâu, cofnodion a phapurau mewn perthynas â chyfarfodydd y Bwrdd Gweithredu.

Agendâu, cofnodion a phapurau mewn perthynas â chyfarfodydd y Cabinet a chyfarfodydd is-bwyllgorau'r Cabinet

Agendâu, cofnodion a phapurau mewn perthynas â Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol

Agendâu, cofnodion a phapurau mewn perthynas â'r Cyngor Partneriaeth Busnes.

Agendâu, cofnodion a phapurau Pwyllgorau Monitro'r Rhaglen Ewropeaidd.

Agendâu, cofnodion a phapurau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Arweiniad i Grantiau'r Sector Gwirfoddol

Atebion i Gwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad.

Atebion i Gwestiynau'r Cynulliad a ofynnwyd ar lafar.

Bwletin wythnosol sy'n nodi'r Offerynnau Statudol a osodwyd gerbron, neu a wnaed gan, y Cynulliad Cenedlaethol.

Bywgraffiadau Aelodau'r Cynulliad, ynghyd â manylion cyswllt.

Canllawiau a baratoir gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddibenion gwybodaeth gyhoeddus.

Canllawiau a gymerir i ystyriaeth gan y staff mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Canllawiau cyffredinol mewnol a ddarperir i holl staff y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Deddf Diogelu Data 1998.

Canllawiau i'r staff ar Benodiadau cyhoeddus a wneir gan Weinidogion Cabinet ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru.

Canlyniadau'r adolygiadau pum mlynedd o'r Cyrff Gweithredol ac Anweithredol a Noddir gan y Cynulliad.

Cod Safonau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol.

Cod Ymarfer ar Benodiadau Gweinidogol ar Gyrff Cyhoeddus.

Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Cod Ymarfer ar Gwynion.

Cofnod gair-am-air o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol lle y gwrandewir ar dystiolaeth ffurfiol.

Cofrestr o fuddiannau'r Aelodau, gan gynnwys swyddi cyfarwyddwyr cwmnïau, cyflogaeth daledig, rhoddion a lletygarwch.

## CYNLLUN CYHOEDDI

Concordatiau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adrannau Llywodraeth y DU.

Contractau a ddyfernir gan ein Huned Gaffael Ganolog, sydd â'u gwerth dros £10,000.

Cronfa Ddata Dirprwyaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Cwestiynau'r Cynulliad (llafar ac ysgrifenedig) a gyflwynir yn ffurfiol gan Aelodau'r Cynulliad ac a dderbynnir gan y Llywydd.

Cyfrifon Adnoddau Blynyddol.

Cyhoeddiadau cynghorol a chyhoeddiadau gwybodaeth Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) ynghyd â deunydd cyhoeddusrwydd y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am eu rheoli yng Nghymru.

Cyhoeddiadau cynghorol a chyhoeddiadau gwybodaeth, arbenigol a masnachol gan Cadw, mewn perthynas ag amgylchedd hanesyddol Cymru.

Cylch gwaith ac aelodaeth y Bwrdd Gweithredu.

Cylch gwaith ac aelodaeth y gwahanol Bwyllgorau.

Cylchlythyrau yn y cyfresi 'Cylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru' a 'Cylchlythyrau Iechyd Cymru'.

Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol.

Cynllun Datblygu Cynaliadwy.

Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Cynllun seddau Siambr y Cynulliad Cenedlaethol .

Cynllun y Sector Gwirfoddol.

Cynlluniau Amaethyddiaeth.

Datganiadau Barn ysgrifenedig a gyflwynir yn ffurfiol gan Aelodau'r Cynulliad.

Datganiadau Gweinidogion y Cabinet i'r Cynulliad Cenedlaethol (e.g. y datganiad gwariant argymelledig ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf).

Datganiadau i'r Wasg a Briffiau'r Cyfryngau a ryddhawyd i'r cyfryngau.

Datganiadau Rheoli a Memoranda Ariannol ar gyfer Cyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad.

Deisebau a gyfeirir i'r Cynulliad Cenedlaethol ac a geir yn y Swyddfa Gyflwyno.

Dogfennau a 'osodir gerbron' y Cynulliad Cenedlaethol.

Drafftiau o Offerynnau Statudol Lleol a gynigir ar gyfer eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol, onid yw'n anymarferol oherwydd cyfyngiadau amser.

Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer y staff.

Gweithdrefnau ar gyfer trin ceisiadau am wybodaeth a wneir yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, a manylion am y cymorth a'r cyngor y gallwn eu rhoi ynglþn â llunio ceisiadau.

Gweithdrefnau ar gyfer trin ceisiadau am wybodaeth a wneir yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, a manylion am y cymorth a'r cyngor y gallwn eu rhoi ynglþn â llunio ceisiadau.

Gwybodaeth a chanllawiau a baratoir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ynglþn â'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru.

Gwybodaeth am benodiadau a wnaed ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru gan Weinidogion Cabinet.

Gwybodaeth am swyddi gwag cyfredol mewn perthynas â chyrff Cyhoeddus yng Nghymru y mae Gweinidogion Cabinet yn gwneud penodiadau arnynt.

Gwybodaeth mewn perthynas â pholisi'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau a darparu gwarantau.

Gwybodaeth ystadegol a baratoir gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddibenion cyhoeddus.

Gwybodaeth ystadegol am Benodiadau Cyhoeddus newydd a wnaed ar Gyrff Cyhoeddus yng Nghymru gan Weinidogion Cabinet.

Gwybodaeth, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, am y symiau cyfanswm a delir gan y Cynulliad i'w Aelodau cyfredol a'i gyn-Aelodau ar gyfer Cyflogau, Lwfansau a Phensiynau.

Is-ddeddfwriaeth a wnaed neu a gadarnhawyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac na chyhoeddwyd fel arall.

Is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'n ofynnol ei gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

Llythyrau cylch gwaith blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru at y Cyrff Cyhoeddus Gweithredol a Noddir gan y Cynulliad.

Mapiau yn dangos yr Ardaloedd a Gynorthwyir yng Nghymru.

Memorandwm Dealltwriaeth a wnaed rhwng Cabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion yr Alban, Pwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU.

Nodiadau Cyngor Technegol Cynllunio Defnydd Tir.

od Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus.

Papurau Ymgynghorol a baratoir gan Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Papurau ymgynghorol a baratoir gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddibenion cyhoeddus ynghyd â naill ai'r atebion i'r ymgynghoriad neu grynodebau o'r atebion.

Penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â phensiynau, lwfansau ac arian rhodd sy'n daladwy i rai a beidiodd â bod yn Aelodau o'r Cynulliad.

Penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â symiau'r cyflogau a'r lwfansau sydd i'w talu i Aelodau'r Cynulliad.

Penderfyniadau'r Cynulliad fesul mis.

Pleidleisiau a Thrafodion y Cynulliad Cenedlaethol.

Polisi Hysbysebion Recriwtio.

Polisïau ar gaffael a chyflenwyr.

Protocol ar gyfer trin busnes y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol.

Protocol ar Ymddygiad yn y Siambr.

Rhaglenni gwaith Pwyllgorau Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol.

Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.

Rhestr o Weinidogion y Cabinet a'u cyfrifoldebau.

Rhestr o'r cofnodion a ddatgelwn yn unol â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.

Rhestr o'r meysydd, yn fras, lle mae gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau a chyfrifoldebau.

Rhestr o'r trefniadau a wnaed yn unol ag adran 41 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

## CYNLLUN CYHOEDDI

Rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwn o ganlyniad i geisiadau a wneir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth.

Rhestrau misol a blynyddol o'r wybodaeth a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r rhestrau hyn yn cynnwys cyhoeddiadau a gyhoeddir ar y cyd ag Adrannau yn Llywodraeth y DU a chyrff eraill.

Rhoddion a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol dros £100,000 neu sy'n sylweddol wahanol i roddion a wneir yn arferol gan gyrff cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

Rhwymedigaethau amodol mewn perthynas â gwarantau, indemniadau a llythyrau cysur a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol a allai fynd dros £100,000 ac sydd y tu allan i gwmpas arferol swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Siart cyfundrefn uwch reolwyr y Cynulliad Cenedlaethol.

Strwythur a chyfundrefn y Cynulliad Cenedlaethol.

Swyddi gwag a disgrifiadau o'r cyfleoedd cyflogaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Taflen wybodaeth i gynorthwyo aelodau'r cyhoedd i wneud cais mynediad gan wrthrych, yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.

Y gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ynghyd ag unrhyw gyllidebau atodol.

Y weithdrefn ar gyfer gwneud a thrin cwynion ac apeliadau.

ATODIAD **C**

***Pa bethau na fyddant ar gael ar y dechrau?***

**Gwybodaeth a fydd ar gael o ddyddiad diweddarach na Thachwedd 2002**

O fis Gorffennaf 2003

Cyfeiriadur o'r prosiectau ymchwil a ymgymerir, a gomisiynir neu a gyllidir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

O fis Medi 2003

Cyfeirlyfr Cyllid (Finance Manual) y Cynulliad Cenedlaethol.

Llawlyfr Cyllid (Finance Handbook) y Cynulliad Cenedlaethol.

Erbyn diwedd 2003

Adroddiadau Penderfyniad sy'n cynnwys y ffeithiau a gymerir i ystyriaeth gan Weinidogion Cabinet wrth wneud prif benderfyniadau polisi.

Cofrestr Asedau Gwybodaeth.

Cyfeiriadur o'r Canllawiau Mewnol ar Faterion sy'n Effeithio ar y Cyhoedd.

Cytundeb Cynllunio Defnydd Tir rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Porth i Bolisïau.

Rhestr gyfeirio o'r cynlluniau grantiau a weithredir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

O 2004 ymlaen

Adroddiad blynyddol ar y modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio â'i Chynllun Iaith Gymraeg.